Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penrhosgarnedd
**Canolfan Penrhos**
**Penrhosgarnedd**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2NN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**


**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Penrhosgarnedd, sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Penrhos, ym mhentref Penrhosgarnedd, Bangor, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae ar agor am bum bore’r wythnos. Mae gan y lleoliad tri aelod o staff llawn amser. Mae’n rhannu’r ystafell fawr gydag asiantaethau cymunedol lleol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd a hanner i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 12 o blant. Mae’r awdurdod lleol yn ariannu pump ohonynt.

Mae tua hanner y plant o darddiad gwyn Prydeinig ac nid oes un o’r plant yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mwyafrif o blant sy’n siarad Saesneg ar yr aelwyd. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Medi 2001. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2013. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Chwefror 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynllunio effeithiol o brofiadau dysgu
- heriau pwrpasol ar gyfer pob plentyn
- addysgu effeithiol
- gofal diwyd o'r plant
- ystod eang o adnoddau dan do ar gael
- perthynas bositif rhwng oedolion a phlant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- darpariaeth effeithiol a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd a'r staff
- agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff
- arferion hunanarfarnu a chynlluniau gwella pwrpasol
- defnydd effeithlon o asiantaethau cymorth effeithiol
- parodrwydd staff i gydweithredu'n effeithiol gydag asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau asesiadau rheolaidd, sy'n arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A2 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau dysgu yn yr ardal allanol

A3 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli i sicrhau ei fod yn arfarnu a monitro arferion rheolaeth y lleoliad yn rheolaidd a thrwyadl

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol ar gyfer plant ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r cynllunio yn bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r staff yn cynllunio'r cwricwlwm gyda'i gilydd ac mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n ystyrlon ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant. Mae'r cynllunio yn canolbwyntio ar anghenion yr holl blant yn feddylgar. Mae'r staff yn herio plant yn bwrpasol i berfformio ar eu gorau ar bob amser.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn effeithiol. Mae'n mwyhau profiadau dysgu plant yn llwyddiannus. Mae tasgau ysgrifennu cynnar a thasgau mathemategol yn ysgogi a herio plant yn dda. Maent yn effeithio'n bwrpasol ar safonau'r plant yn yr holl feysydd dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ac mae'r cyfleoedd i ddefnyddio offer technolegol, sy'n cynnwys tabled a theganau electronig, wedi'u cynllunio'n dda.

Mae'r staff yn defnyddio'r amgylchedd dan do yn synhwyrol er mwyn annog plant i brofi gweithgareddau newydd, sy'n datblygu'n effeithiol eu medrau meddwl annibynnol. Er enghraifft, mae'r plant yn cydweithredu'n dda i ddatrys problemau gwahanol a osodir gan y staff, trwy arbrofi gyda bwcedi o dywod, pwyso bwyd, adeiladu blociau pren a chwarae rôl fel asiant tai. Mae'r ardal allanol yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau cerddorol a chorfforol, fodd bynnag nid yw'r defnydd mor effeithiol â'r amgylchedd dan do.

Mae plant yn ymweld â lleoedd tu allan i'r lleoliad fel gwyliau plant, y castell yng Nghaernarfon a pharciau lleol ar gyfer teithiau cerdded. Mae'r ymweliadau wedi eu cynllunio'n dda ac mae'r plant yn profi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am eu hardal leol ac ardaloedd o ddiddordeb sydd yn bellach i ffwrdd. Mae'r plant yn dysgu'n bwrpasol oddi wrth bobl sy'n ymweld â'r lleoliad, fel hylenyddion deintyddol, rhieni ag anifeiliaid anwes ac aelodau o'r gwasanaethau brys.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant i ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu’n llwyddiannus am wyliau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Maent hefyd yn ymchwilio ac yn trafod yn ystyrlon am ddiwylliannau eraill, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali ac maent yn dysgu am Affrica drwy ddefnyddio storïau moesol. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant yn y Gymraeg.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl staff â’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus am ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol iawn rhwng yr holl staff a'r plant. Mae gan staff rôl weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Mae'r holl staff yn ysgogi plant yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio yn unol â'u galluoedd. Mae hyn yn agwedd arbennig o effeithiol o addysgu’r staff.

Mae pob aelod o staff yn bositif wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda’r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn. Cydweithia'r staff yn effeithlon. Maent yn rhoi’r cyfle i bob plentyn i ddewis yn synhwyrol rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau a arweinir gan blant. Mae’r staff yn ymyrryd yn fedrus mewn tasgau ac maent yn galluogi’r plant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Mae staff yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae’r staff yn modelu iaith benodol yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu’r plant. Maent yn annog plant i werthuso’n synhwyrol wrth ddidoli siapiau o liwiau gwahanol ar fyrddau siâp a disgrifio'r hyn y maent wedi peintio, gwehyddu a gwneud o glai. Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan, mwynhau a dysgu trwy geisio a datrys tasgau heriol. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored mor ysgogol.

Mae gweithdrefnau asesu rheolaidd yn bodoli. Mae’r staff yn cwblhau cofnodion o gyflawniadau'r plant yn addas. Nid yw pob un o'r staff yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Felly, nid yw asesiadau’n arwain, gyda digon o fanylder, i dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth hon ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu’n effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant.

Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerth chweil ar gael i blant i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo’n ddyddiol. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro’n

gwrtais wrth fwyta byrbrydau, gweini tost a ffrwythau i'w gilydd ac yfed llaeth a dŵr o amgylch y byrddau bwyta. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae plant yn ailgylchu cardbord, papur, poteli plastig a dillad ar gyfer elw ariannol. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o ymddygiad afreolus. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad da. Mae'r gymhareb o oedolion i blant yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, y drws allanol ar gau a dim ond aelod o staff sy'n ei hagor. Ni all unrhyw un ddod i mewn ac ni all plentyn gadael heb gwmni. Mae'r staff yn cymryd gofal pan fydd plant yn cael eu casglu o'r cyntedd. Mae'r staff yn sicrhau bod plant dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi. Mae staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae pob plentyn yn cymryd rhan mewn cwricwlwm diddorol ac amrywiol y tu mewn i'r adeilad. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol trwy ei gweithgareddau dyddiol a thrwy'r dulliau a fabwysiadwyd gan y staff. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae staff yn defnyddio storïau penodol o bob cwr o'r byd ac am wahanol ddiwylliannau i gyflawni hyn.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus tu mewn i'r adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae plant yn cael eu hannog yn gyson i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd i bob plentyn, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn dda. Mae gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'n rhannu adnoddau dysgu'n effeithiol.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn tyfu planhigion mewn potiau, sy'n addysgu plant am dyfiant planhigion yn briodol. Mae adnoddau awyr agored y lleoliad wedi cael eu heffeithio gan fandaliaeth ac ar hyn o bryd mae'r lleoliad yn datblygu gwell adnoddau awyr agored fel targed yn ei gynllun datblygu. Felly, mae diffyg her ar gyfer plant yn yr awyr agored oherwydd y diffyg cyfleusterau ac adnoddau.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd ymdeimlad positif o bwrpas, sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau yn y lleoliad. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda, ac mae'r disgwyliadau'n uchel. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod staff yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn synhwyrol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd staff ac mae'n herio staff i wella mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor rheoli'n gwerthuso a monitro arferion rheolaeth y lleoliad yn rheolaidd ac yn drwyadl. Nid yw ei rôl yn cael ei ddatblygu'n dda ar hyn o bryd. Er bod y grŵp bach o bobl ar y pwyllgor yn gefnogol, nid yw eu gwaith yn effeithio'n ddigon da ar herio'r lleoliad i wella ymhellach.

Mae'r arweinydd a'r staff yn cynllunio'n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant. Mae'r berthynas gyda phlant, rhieni a gofalwyr a'r nifer fach o bobl ar y pwyllgor rheoli yn gadarnhaol. Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson ac mae ganddi ffocws cynaliadwy ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Ceir blaenoriaethau clir ar gyfer gwella eu nodi trwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gref ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod deilliannau ar gyfer y plant yn dda. Mae'r arweinydd a'r staff yn gweithredu'r polisïau a'r mentrau'n effeithlon, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel darparu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r hunanarfarniad yn ystyried safbwyntiau pwrpasol y plant a'u rhieni a gofalwyr drwy holiaduron defnyddiol. Mae'r lleoliad hefyd yn gwella ansawdd ei waith trwy gyngor yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn yn fanteisiol i ddatblygiad y lleoliad. Mae'r arweinydd yn dangos yn glir sut mae'r lleoliad wedi gwella'r ddarpariaeth dros amser, drwy fabwysiadu strategaethau gwahanol a derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill. Mae'r pwyllgor rheoli yn llai cyfarwydd â'r broses hunanarfarnu.

Mae'r arweinydd a'r staff yn wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau cyson i fonitro'r ddarpariaeth. Mae gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol o ddydd i ddydd yn cyflawni hyn. Mae'r holl staff yn rhannu syniadau synhwyrol ar sut i wella gwaith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn defnyddio cyllid yn effeithlon ar gyfer adnoddau dan do a staffio priodol. Mae'r pwyllgor rheoli'n gefnogol ac yn rheoli arian yn dda i gefnogi'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn adnabod y meysydd i'w datblygu'n dda, fel gwella medrau Cymraeg y plant, datblygu offer chwarae tu allan a gwella rôl y pwyllgor rheoli. Mae cysylltiadau clir rhwng yr hunanarfarnu a

thargedau'r cynllun datblygu, sy'n canolbwyntio'n dda ar welliannau yn y lleoliad. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu'n bodoli sy'n targedu gwelliannau yng ngwaith y lleoliad.

Mae'r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent newydd fabwysiadu proses newydd o gofnodi cyflawniadau plant mewn llyfrau nodiadau a system gynllunio newydd yr awdurdod lleol. Mae'r staff yn barod i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r hunanarfarnu, drwy raddio gwaith y lleoliad erbyn meini prawf penodol yn ystod y flwyddyn, wedi effeithio ar allu'r lleoliad i dargedu ei hanghenion yn fwy llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles plant. Mae hyn yn arbennig o amlwg ac yn fuddiol trwy bartneriaeth y lleoliad â'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r berthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin yn herio a gwella gwaith y lleoliad. Mae partneriaethau'r lleoliad gyda'r ysgolion lleol yn briodol. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys codi arian a digwyddiadau cymdeithasol. Mae asiantaethau allanol yn cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, mentrau'r Cyfnod Sylfaen a chyrsiau diogelu. Mae hyn yn gwella ymwybyddiaeth y staff o faterion pwysig a pherthnasol wrth ddelio â phlant ifanc.

Mae staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys mynd gyda'u plant ar wibdeithiau i lefydd lleol o ddiddordeb fel castell Caernarfon. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maen nhw'n cael eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn gweithredu arnynt er mwyn sicrhau gwelliannau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn effeithlon ac mae hi'n canolbwyntio'n effeithiol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae hyn yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi adnoddau dan do da a lefelau staffio effeithiol. Mae'r arweinydd yn llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad staff llawn amser sydd wedi eu cymhwyso gyda hyfforddiant priodol. Mae'r pwyllgor rheoli'n gefnogol, fodd bynnag nid yw'n dal y lleoliad i gyfrif gyda digon o drylwyredd.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau'n bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad ddealltwriaeth gadarn o'i gyllideb. Mae'n blaenoriaethu gwariant yn unol â'r targedau ar gyfer gwelliant yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar wella darpariaeth, yn enwedig dan do, a chyflawniadau a lles plant.
Yn sgîl y ddarpariaeth lwyddiannus a gwaith cadarnhaol yr arweinydd a'r staff, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

# Atodiad 2

## Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |